CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**30.01.20**
**7pm**
**CYFARFOD LLAWN**

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**Presennol:** JAJ (Cadeirio); RJ; DP; JOJ; AR; IW; DW; TAJ

**Ymddiheuriadau:** DL; EO; BJ; GW; EW

**Yn mynychu:** SWR;

**2. Datgan Diddordeb**
Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.

**3. Cofnodion cyfarfod**
Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion Pwyllgor Llawn 28.11.19 - (TAJ/DP)

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion Is Bwyllgor Cyllid 14.01.20 – (AR/JOJ)

**4. Materion yn Codi**
Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 30.01.20

**5. Materion Cyffredinol – drwy'r Gadair**
**DW -** adroddodd am gwynion fod ceir wedi parcio ar bafin ar ben Stryd Wellington - Clerc i adrodd i'r Heddlu/CSYM
- holodd os oedd modd cael rhagor o arwyddion Baw Cŵn - Clerc i archebu 8 arall gyda Red Rock am gost oddeutu £160

**TAJ -** cyfeiriodd at gyflwr gwael y rhwydi ar y cael amlbwrpas. Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod diweddar gydag Is Bwyllgor Adeiladau Llywodraethwyr yr Ysgol lle darganfuwyd bod pyst y gôl ddim yn saff. Dywedodd bod y 'stentions' wedi cracio ac wedi eu tynnu oddi yno amser yn ôl yn hytrach na'u trwsio. Penderfynwyd galw arbenigwr Dyfed Pritchard i drwsio rhag blaen er mwyn diogelu'r plant a'r safle.



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mae'r safle wedi ei gau hyd nes bydd y gwaith wedi ei gwblhau. Nododd hefyd mai £560 yw'r amcan gost a chytunwyd i ofyn i'r Pennaeth am gyfraniad posib. Cytunwyd hefyd bod angen cytundeb rhwng Llywodraethwyr yr Ysgol a CC Llan - Clerc i roi hyn ar raglen mis Chwefror.

**JAJ -** cyfeiriodd at gyflwr y wal yn y Fynwent Gyhoeddus. Cytunodd DP i drafod hefo Trefor Rowlands i drwsio pan fydd y tywydd yn caniatáu.

- trafodwyd sefydlu croesffordd diogelwch ger y Twrcelyn i helpu plant groesi i'r Ysgol yn dilyn colli swydd Croeswraig Ysgol. Cytunwyd i'r Clerc holi Cyngor Rhosybol am eu croesffordd newydd nhw a'r camau a gymerwyd i weithredu ei sefydlu. Nododd y Clerc bod Cyng. Llinos Medi wedi cyflwyno 3 pris ar gyfer gosod goleuadau diogelwch 30 mya a'i bod yn ceisio ffynonellau grantiau addas ar hyn o bryd.

**6. Materion yr Heddlu**

Dim diweddariad i law er bod y Clerc wedi eu gwahodd i'r cyfarfod. Clerc i gysylltu â'r PCSO

**7. Materion Safleoedd**

Dim i'w drafod

**8. Materion Cyllidol a Thaliadau**

| **Ôl daliadau** | **£** |
|---|---|
| Rhys Williams - taliad torri gwair 2019-20 | 2431.00 |
| Glasfryn Gwynedd - Prynu Coeden Dolig | 156.00 |
| Williams Bros – trwsio brys Glan Menai | 224.11 |
| Weindio'r Cloc – Tracey Williams yn derbyn hanner yr 'honourarium' blynyddol arferol a gytunwyd gan nad oedd wedi weindio pob wythnos dros y cyfnod | 100.00 |
| Nwy Prydain – trydan Lawnt Fowlio | 23.08 |
| Dragon Fire - newid/diweddaru'r diffoddyddion | 273.90 |
| MSI Alarms – archwiliad 6 mis | 98.40 |
| Carolyn Owen – llogi stafell Caffi ar gyfer cyfarfodydd CC Llan Mehefin i Ragfyr. Te Sul y Cofio a Te Cyfarfod Cyhoeddus Cae Gofeb | 170.00 |
| Scottish Power – trydan Uned 1 Tan y Foel | 96.18 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

**Taliadau**
Cytunwyd i dalu £190 ar gyfer Panel Dehongli yn dilyn cais gan Calon Gudd Môn

**9. Materion Cynllunio**
Dim i law

**10. Gohebiaeth Gyffredinol**
Dim i law

*Daeth y cyfarfod i ben am 8.55*



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383